



TYSTYSGRIF / DIPLOMA LEFEL 3

4463N60-1A



S18-4463N60-1A

GWYDDOR FEDDYGOL

Uned 6 (Cyflyrau Meddygol)

*I'w defnyddio gydag arholiad **Uned 6 Astudiaeth Achos Feddygol***

**Erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i'w
defnyddio yn yr arholiad canlynol ar 24 Mai 2018**

Diploma Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol


Tystysgrif Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol

COPD

Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (*Chronic Obstructive Pulmonary Disease: COPD*) yw'r enw ar grŵp o gyflyrau ysgyfaint sy'n achosi anawsterau anadlu. Mae'n cynnwys;

- Emffysema – niwed i alfeoli'r ysgyfaint
- Bronchitis cronig – llid tymor hir yn y llwybrau anadlu

Mae COPD yn achosi llawer o farwolaethau yn y DU (UK) – dros 25000 y flwyddyn. Mae'n tueddu i effeithio ar ysmygwyr canol oed neu ysmygwyr hŷn (*older*). Mae problemau anadlu'n tueddu i waethgu'n raddol dros amser, sy'n gallu cyfyngu ar weithgareddau normal, er bod triniaeth yn gallu helpu i reoli'r cyflwr.



Symptomau

- Diffyg anadl yn cynyddu, yn enwedig wrth fod yn actif.
- Gwichian (*wheeze*) yn gyson a pheswch caeth (*chesty*) gyda fflem (peswch ysmygwyr).
- Heintiau ar y frest yn aml.

Achosion

Y prif achos yw ysmegu. Mae'r cyflwr hefyd yn gallu effeithio ar bobl sydd heb ysmegu erioed, ond mae hyn yn brin iawn. Mae ffactorau risg a difrifoldeb COPD yn cynyddu gyda faint mor drwm mae'r person wedi bod yn ysmegu, ac am faint o amser.

Diagnosis

Bydd y meddyg yn gofyn am hanes meddygol a hanes teuluol y claf, ac am ei ffordd o fyw gan gynnwys arferion ysmegu yn y gorffennol a'r presennol. Mae'r profion yn gallu cynnwys archwilio'r frest gan ddefnyddio stethosgop, mesurydd llif allanadlu brig, sbiomedr i gynnwys FEV ac FVC, a phelydr X. Mae profion pellach yn gallu cynnwys ECG, ecocardiogram a sgan CT. Efallai bydd y meddyg hefyd yn gofyn am samplau fflem a gwaed er mwyn cynnal profion arnyn nhw.

Triniaethau

Mae triniaeth yn gallu arafu datblygiad y clefyd. Y peth pwysicaf yw rhoi'r gorau i ysmegu. Mae broncoledwyr yn helpu i wneud anadlu'n haws, ac mae defnyddio corticosteroidau yn gwneud hynny hefyd. Dydy triniaethau asthma nodweddiadol ddim yn effeithio ar gleifion COPD. Mae rhaglen arbenigol o ymarferion anadlu ac addysg hefyd yn gallu helpu. Dim ond mewn nifer bach o achosion mae trawsblaniad ysgyfaint yn opsiwn.

Atal

Mae'n bosibl atal y cyflwr COPD. Mae'r siawns o ddatblygu'r clefyd hwn yn lleihau'n sylweddol drwy beidio ag ysmegu; mae hyn yn gallu lleihau niwed pellach i'r ysgyfaint. Mae meddyginiaeth i helpu pobl i roi'r gorau i ysmegu ar gael yn rhwydd.

Tarwden y Traed (*Athlete's Foot*)

Symptomau

Fel arfer, mae tarwden y traed yn effeithio ar y croen rhwng bysedd y traed neu ar waelod y traed. Gallai'r croen mae'r cyflwr yn effeithio arno fod yn:

- sych, coch, cennog (*scaly*) a fflawiog (*flaky*)
- gwyn, soeglyd ac wedi cracio
- cosi ac yn boenus
- pothellog



Mae cyffwrdd â rhannau eraill o'r corff hefyd yn gallu lledaenu'r haint. Mewn achosion difrifol, mae'r croen yn gallu cael ei heintio gan facteria. Os yw claf sy'n dioddef o ddiabetes yn cael ei heintio â tharwden y traed, mae'n bwysig bod yr haint yn cael ei drin yn gyflym. Mae cymhlethdodau'n gallu digwydd os nad yw tarwden y traed yn cael ei thrin mewn pobl â diabetes. Mae cleifion â chyflyrau diffyg imiwnedd hefyd yn fwy agored (*prone*) i gael haint tarwden y traed.

Achosion

Mae tarwden y traed yn cael ei hachosi gan ffwng sy'n tyfu ar y croen. Mae'r ffwng sy'n achosi'r haint hwn yn ffynnu (*thrives*) mewn mannau cynnes, llaith fel traed.

Triniaethau

Fel arfer, mae tarwden y traed yn gallu cael ei thrin â meddyginiaeth wrthffyngaid (*antifungal*) sydd ar gael o'r fferyllfa heb fod angen gweld meddyg. Mae triniaethau gwrthffyngaid yn atal y ffwng rhag tyfu. Maen nhw'n tarfu ar y broses o ffurfio ergosterol, sy'n gydran hanfodol o'r gellbilen. Mae triniaethau ar gael ar ffurf eli, chwistrell a phowdr. Weithiau dydy triniaethau argroenol ddim yn briodol ac felly mae dewisiadau eraill ar gael.

Atal

Mae hyllendid traed da yn lleihau'r risg o ddal tarwden y traed.

Anaemia Diffyg Haearn

Mae anaemia yn gyflwr lle mae diffyg haearn yn y corff yn golygu bod nifer corffilod coch y gwaed (*erythrocytes*) yn lleihau. Anaemia diffyg haearn yw'r math mwyaf cyffredin.


Symptomau

Ychydig iawn o symptomau sydd gan lawer o bobl ag anaemia diffyg haearn. Mae difrifoldeb y symptomau yn dibynnu'n bennaf ar ba mor gyflym mae anaemia yn datblygu.

Mae symptomau'n gallu ymddangos ar unwaith, neu'n gallu datblygu'n raddol os yw'r anaemia yn cael ei achosi gan broblem tymor hir.

Mae'r symptomau mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- syrthni (*lethargy*)
- prinder anadl
- cyflymedd y galon a methiant y galon
- croen gwelw (*pale*)



Achosion

Mewn dynion ac mewn menywod sydd wedi bod drwy'r menopos, yr achos mwyaf cyffredin yw gwaedu yn y stumog a'r coluddion. Efallai bydd y gwaedu hwn yn cael ei achosi gan friw'r stumog, canser y stumog neu'r coluddyn, neu gan gymryd cyffuriau gwrthlidiol heb fod yn steroidau (*non-steroidal anti-inflammatory drugs: NSAID*). Mewn menywod oed atgenhedlu, achosion mwyaf cyffredin anaemia yw mislif trwm a beichiogrwydd. Heblaw yn ystod beichiogrwydd, mae'n anarferol i ddiffyg haearn yn y deiet yn unig achosi anaemia diffyg haearn.

Diagnosis

I roi diagnosis o anaemia diffyg haearn, mae sampl gwaed yn cael ei gymryd a chyfrif gwaed llawn yn cael ei gynnal.

Os oes anaemia yn bodoli:

- bydd lefelau haemoglobin yn is na'r lefel normal
- bydd llai o gorffilod coch y gwaed, ac efallai bydd y rhain yn llai ac yn fwy golau nag arfer.

Efallai bydd y meddyg teulu hefyd yn profi am sylwedd o'r enw fferitin gan ddefnyddio ELISA neu RIA. Protein sy'n storio haearn yw fferitin. Os yw'r lefelau fferitin yn isel, mae llai o haearn wedi'i storio yn y corff sy'n golygu y gallai fod anaemia diffyg haearn yn bodoli.

Triniaeth

Y driniaeth ar gyfer anaemia diffyg haearn yw cymryd atchwanegion haearn (*iron supplements*) i gynyddu'r lefelau haearn isel yn y corff.

Atal

Mae cynnwys mwy o haearn yn y deiet yn gallu helpu i atal anaemia diffyg haearn.